

## Pwyllgor Mis Mehefin

Cyngor Cymuned Pennal

Pennal Community Council

Cyngor Cymuned Pennal Cynhaliwyd pwyllgor nos Fawrth 19 o Fehefin 2018.

Derbyniwyd ymddiheiriad oddiwrth Meirion Roberts Cadeirydd oherwydd salwch, fe gadeiriwyd y pwyllgor gan yr Is Gadeirydd Rhys Parry.

Agorwyd y pwyllgor trwy gydymdeimlo ar Cynghorydd Mr James Bruton a oedd wedi colli eu fam yn ddiweddar.

Roedd y clerc wedi sarad ar cadeirydd, a oedd wedi siarad ar Brifathrawes Helen ynghylch ar cwn yn baeddu ar draws y pentref pasiwyd mae syniad da fyddai i gael cystadleuaeth i wneud poster i dynnu sylw y gymuned ag ymewlwyr ir broblem, fe fyddai yn ffordd wych I gadw yr ysgol ar gymuned mewn cysylltiad ai gilydd. Wedi trafod a gweld pwysigrwydd y fenter penderfynodd y Cyngor rhoi gwobrau ir gystadleuaeth o 1af30 2ail£20 3ydd £15.

Penderfynwyd cael 2 fin arall I ymwneud ar broblem un wrth mynediad giat Llwybyr Llyn Bwtri byddai Dewi Owen yn edrych mewn I hyn.hefyd byddair clerc yn archebu 5 o arwyddion sydd yn ymddangos fel asgwrn ond yn cynnwys bagiau I gasglu y carthion cwn ,archebir rhain mewn siop yn Aberdyfi.

Derbyniwyd cwyn am gyflwr y fynwent .

Cyn derbyn y gwyn roedd y Cyngor wrthi yn tacluso a gwella y fynwent Mae mater o gerrig wedi cwmpo mewn llaw I gael eu hatgyweirio.ac mae gwaith o beintior ddwy giat mewn lle.

Toiledau Gofynwyd hefyd I gael pris I beintio tu mewn ir toiledau.

BDO Archwiliad Wedi derbyn y cyfrifon yn ol derbyniwyd hwy yn gywir ai anfon at yr archwiywr allanol

Trafodwyd y gyllideb eto ond derbyniwyd eu bod yn ddigonol fel ac y mae fe ail edrychir arni yn mis Medi eto.

Toiledau Cytunwyd I dalu Cyngor Gwynedd £4000.00 I gadw r toiledau ar agor .

Cais am arian Dail Dysynni pasiwyd I rhoi rhodd o £100 tuag at gynnal y Dail.

Problemau Llifogydd yn y pentref diolchwyd I Cyngor Gwynedd am ffeindio lleoliad y broblem trwy barodrwydd Mr Sean Wilkes i fynd I wraidd y broblem ffeindiwyd y culvet a cafodd y draeniau eu jetio mae rhagor o waith eto yw wneud yn y pentref..

Ceir yn parcio ger mynedfa a junction Cwm Maethlon penderfynnwyd anfon llythyr at berchenog Ty Uchaf Cwrt yn gofyn iddo beidio parcio yno a mynd ar car i'r maes parcio nes fydd y gwiath atgyweirio wedi gorffen .

Deilwen Breese clerc